OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 715 (Cy. 158)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Mehefin 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *29 Mehefin 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Gorffennaf 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 124 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Gorffennaf 2022.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989(**2**).

### Diwygio'r prif Reoliadau

**2.**—(1) Mae'r prif Reoliadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3 (gwasanaethau sydd wedi eu hesemptio rhag ffioedd)—

(a) daw'r testun presennol yn baragraff (1);

(b) ar ôl y paragraff newydd (1), mewnosoder—

"(2) Services provided to an overseas visitor for the treatment of monkeypox on or after 23 May 2022 but before this paragraph came into force are to be treated for the purposes of these Regulations as if, at the time that the services were provided, they were relevant services in respect of which no charge may be made or recovered.

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) O.S. 1989/306, a ddiwygiwyd gan O.S. 1991/438; O.S. 1994/1535; O.S. 2004/614; O.S. 2004/696; O.S. 2004/1433 (Cy. 146); O.S. 2008/2364 (Cy. 203); O.S. 2009/1175 (Cy. 102); O.S. 2009/1512 (Cy. 148); O.S. 2009/1824 (Cy. 165); O.S. 2009/3005 (Cy. 264); O.S. 2010/730 (Cy. 71); O.S. 2010/927 (Cy. 94); O.S. 2011/1043; O.S. 2011/2906 (Cy. 310); O.S. 2012/1809; O.S. 2014/1622 (Cy. 166); O.S. 2020/113 (Cy. 20); O.S. 2020/1607 (Cy. 334); O.S. 2021/221 (Cy. 55); O.S. 2022/89 (Cy. 30); O.S. 2022/402 (Cy. 99); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(3) Where paragraph (2) applies, a Local Health Board or NHS Trust—

(a) yet to make charges under regulation 2 (making and recovery of charges) must not make the charges;

(b) that made charges under regulation 2 but has yet to recover the charges, must not recover the charges; or

(c) that made charges under regulation 2 and received payment in respect of the charges, must repay any sum paid in respect of the charges in accordance with regulation 8 (repayments).".

(3) Yn Rhan 4 o Atodlen 1 (clefydau na chodir ffi am eu trin), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder "Monkeypox".

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Mehefin 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (O.S. 1989/306) ("y prif Reoliadau"), sy'n darparu ar gyfer codi ac adennill ffioedd am wasanaethau perthnasol a ddarperir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42) i ymwelwyr tramor.

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r prif Reoliadau i fewnosod "Monkeypox" yn Atodlen 1 (clefydau na chodir ffi am eu trin). Mae rheoliad 2(2)(b) yn darparu, o ran ffioedd yr aed iddynt mewn cysylltiad â gwasanaethau a ddarparwyd i ymwelydd tramor ar gyfer trin brech y mwncïod ar neu ar ôl 23 Mai 2022 ond cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym—

- os nad ydynt wedi eu codi eto, na chaniateir eu codi,
- os ydynt wedi eu codi, na chaniateir eu hadennill, neu
- os ydynt wedi eu talu, fod rhaid eu had-dalu.

Ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi yn eu lle ar frys i ymateb i'r achosion presennol o frech y mwncïod yn y Deyrnas Unedig.